Cymdeithas yr Iaith Gymraeg,
Pen Roc,
Rhodfa'r Môr,
Aberystwyth,
SY23 2AZ.

26ain Mai 2008

Ms Jane Hutt AC (Gweinidog Addysg)
Llywodraeth Cynulliad Cymru,
Bae Caerdydd,
CF99 1NA.

Annwyl Ms Hutt,

Pwnc: Ysgolion Pentrefol Cymraeg

Caiff dau adroddiad sylweddol eu cyhoeddi eleni a allent gynnig llawer o bosibiliadau newydd ar gyfer ein hysgolion pentrefol. Disgwyliwn erbyn Gorffennaf ddrafft Adran Addysg y Cynulliad o'i chanllawiau newydd ar gyfer Awdurdodau Addysg Lleol o ran trin ysgolion pentrefol, ac fe obeithiwn y bydd y canllawiau hyn yn cydnabod gwerth ysgolion pentrefol Cymraeg. Ar yr un pryd, bydd Is-bwyllgor Datblygu Gwledig y Cynulliad yn cynnal ymchwiliad i ad-drefnu addysg gynradd mewn ardaloedd gwledig, a bydd cadeirydd yr Is-bwyllgor (Alun Davies A.C.) yn ymweld yn ystod yr wythnos ag uned Cymdeithas yr Iaith ar y maes i weld tystiolaeth gan ddisgyblion, llywodraethwyr a phrifathrawon.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried ymatebion i'r adroddiadau hyn ac yn dod i benderfyniadau efallai tua diwedd y flwyddyn. Mae'n wirion felly fod Awdurdodau Lleol yn cychwyn eleni unrhyw brosesau statudol newydd a allent arwain at gau ysgolion pentrefol cyn bod casgliadau'r ddau adroddiad hyn yn wybyddus. Galwn arnoch i anfon cyfarwyddyd atynt i ymatal ac felly osgoi'r gyflafan arfaethedig o ysgolion pentrefol Cymraeg.

Yn Gywir,

Ffred Ffransis, Cymdeithas yr Iaith

Ac ar ran disgyblion ysgolion pentrefol yng Nghymru: